*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 4

## Cyfrifon pensiwn

### PENNOD 9

### Cyfrifon pensiwn ar gyfer aelod-oroeswyr

**Sefydlu cyfrif aelod-oroeswr**

**61.**—(1) Rhaid i'r rheolwr cynllun sefydlu cyfrif pensiwn ar gyfer pob person sydd â hawl i gael pensiwn o dan y cynllun hwn fel partner sy'n goroesi neu blentyn cymwys yn dilyn marwolaeth aelod actif, aelod gohiriedig neu aelod-bensiynwr.

(2) Rhaid i'r rheolwr cynllun—

(a) cau'r cyfrif aelod actif neu'r cyfrif aelod gohiriedig neu'r cyfrif ymddeol (yn ôl fel y digwydd) a'r cyfrif pensiwn ychwanegol (os oes un); a

(b) sefydlu cyfrif pensiwn ar gyfer pob aelod-oroeswr.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) gelwir person sydd â hawl i gael pensiwn yn yr amgylchiadau a grybwyllir ym mharagraff (1) yn aelod-oroeswr; a

(b) gelwir cyfrif a sefydlwyd o dan baragraff (2)(b) yn gyfrif aelod-oroeswr.

**Swm y pensiwn sy'n daladwy i aelod-oroeswr**

**62.** Rhaid credydu cyfrif yr aelod-oroeswr â swm hafal i gyfradd flynyddol y pensiwn sy'n daladwy i'r aelod-oroeswr, a gyfrifir yn unol â'r rheoliad priodol ym Mhennod 2 (pensiynau ar gyfer partneriaid sy'n goroesi) neu Bennod 3 (pensiynau ar gyfer plant cymwys) o Ran 6 (buddion marwolaeth), yn ôl fel y digwydd, sy'n rhoi'r pensiwn i'r aelod-oroeswr.